# Gwybodaeth i gleifion

# Bleffaritis

# Yr Uned Llygaid

**Mae hwn yn gyflwr llidiol, sy'n effeithio ar waelod blew’r amrannau (ymylon yr amrannau); mae'r hyn sy’n ei achosi yn aml yn anhysbys.**

**Beth fyddwch chi'n sylwi arno?**

- Amrannau llidus coch
- Crawennu (*crusting*) o amgylch blew’r amrannau gyda chosi ac anghysur

**Hylendid Amrannau**


1. Gwlychwch wlân cotwm gyda dŵr cynnes wedi'i ferwi.
2. Sgwriwch ymylon eich amrannau (lle mae blew’r amrannau'n tyfu) am un funud. Gwnewch hyn i’r ddau amrant ddwywaith y dydd.


**Amrannau Uchaf**
Caewch y llygad yn ysgafn
Sgwriwch ar draws ac i lawr (gweler y lluniau isod)



**Amrannau Isaf**

Edrychwch i fyny
Sgwriwch ar draws ac i fyny
(Gweler y lluniau isod)





Dylid gwneud y driniaeth hon bob bore a nos, oni bai bod y meddyg yn cyfarwyddo fel arall. Mae bleffaritis yn broblem barhaus; mae hylendid amrannau rheolaidd yn helpu i gadw'r cyflwr hwn dan reolaeth.

**Ble gallaf i gael cyngor pellach?**
Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, cysylltwch â: -

Adran Cleifion Allanol Llygaid ar: -
Rhif Ffôn: - 01633 – 656268
Rhwng 8.30am – 5.00pm

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**